Trafod y berthynas rhwng dysgu a pherfformiad

Dechreubwynt: profiad y dysgwr.

1 Fel dysgwyr, gallwn i gyd weld ein hunain mewn gwahanol safleoedd ar y dimensiwn isod:

"cyfeiriadedd dysgu"	*"cyfeiriadedd perfformiad"*
• credwn y gall ymdrech arwain at lwyddiant	• credwn fod gallu yn arwain at lwyddiant
• credwn yn ein gallu i wella ac i ddysgu, ac i beidio â bod yn anhyblyg neu fynd i rigol	• mae hi o bwys i ni fod pobl yn meddwl ein bod ni'n alluog, ac yn perfformio'n dda yng ngolwg eraill
• mae'n well gennym dasgau heriol lle mae'r canlyniad yn adlewyrchu ein dull o weithio	• rydym yn ceisio boddhad trwy wneud yn well nag eraill
• cawn foddhad gan lwyddiant a ddiffinnir gennym ni'n bersonol wrth wneud tasgau anodd	• rydym yn pwysleisio cystadleuaeth, arfarnu cyhoeddus
• rydym yn siarad â ni ein hunain; wrth wneud tasg rydym yn siarad ein hunain drwyddi	• pan fo'r dasg yn anodd rydym yn dangos analluogrwydd: "Alla' i ddim â gwneud X"
Mae gwella perfformiad o bwys i ni	*Mae profi perfformiad o bwys i ni*

Meddyliwch am eich dysgu eich hun, a'r hyn a wyddoch am ddysgu eich disgyblion - a yw'r dimensiwn hwn yn goleuo'r hyn a wyddoch?

Mae peryglon cyfeiriadedd perfformiad yn wybyddus iawn - gan gynnwys gwaeth perfformiad. Ond mae arferion yr ysgol a'r ystafell ddosbarth yn cyfrannu'n fawr, felly:

2 Nodwch isod rai o'r agweddau ar arfer yr ysgol sy'n hybu'r cyfeiriadeddau hyn:



- Gyda chydweithwyr, trafodwch agweddau rydych wedi eu nodi, a dewiswch arferion priodol a allai hybu mwy ar gyfeiriadedd dysgu.